# Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

2015 dccc 3

# Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015

2015 anaw 3

Lluniwyd Nodiadau Esboniadol yn gymorth i ddeall y Deddf hon ac maent ar gael ar wahân.

Explanatory Notes have been produced to assist in the understanding of this Act and are available separately.

**£10.00**

# Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

2015 dccc 3

# Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015

2015 anaw 3

# Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

2015 dccc 3

## CYNNWYS

*Cyflwyniad*

1 Diben y Ddeddf hon
2 Trais yn erbyn menywod a merched

*Strategaeth genedlaethol*

3 Dyletswydd i baratoi, cyhoeddi ac adolygu strategaeth genedlaethol
4 Dyletswydd i weithredu'r strategaeth genedlaethol

*Strategaethau lleol*

5 Dyletswydd i baratoi strategaethau lleol
6 Cyhoeddi ac adolygu strategaethau lleol
7 Materion y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth baratoi neu adolygu strategaeth leol
8 Dyletswydd i weithredu strategaethau lleol

*Addysg*

9 Gwybodaeth am ddarpariaeth addysgol i hybu diben y Ddeddf hon
10 Canllawiau i sefydliadau addysg bellach ac uwch

*Mesur perfformiad tuag at gyflawni diben y Ddeddf hon*

11 Dangosyddion cenedlaethol
12 Adroddiadau cynnydd blynyddol gan Weinidogion Cymru
13 Adroddiadau cynnydd blynyddol gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol

*Canllawiau a chyfarwyddydau mewn perthynas â diben y Ddeddf hon*

14 Ystyr "awdurdod perthnasol"
15 Pŵer i ddyroddi canllawiau statudol
16 Ymgynghori a gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
17 Dyletswydd i ddilyn canllawiau statudol
18 Datganiadau polisi: gofynion a phwerau ategol
19 Cyfarwyddydau

# Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015

2015 anaw 3

## CONTENTS

*Introduction*

1 The purpose of this Act
2 Violence against women and girls

*National strategy*

3 Duty to prepare, publish and review a national strategy
4 Duty to implement the national strategy

*Local strategies*

5 Duty to prepare local strategies
6 Publication and review of local strategies
7 Matters to which regard must be had in preparing or reviewing a local strategy
8 Duty to implement local strategies

*Education*

9 Information about educational provision to promote the purpose of this Act
10 Guidance to further and higher education institutions

*Measuring performance towards achieving the purpose of this Act*

11 National indicators
12 Annual progress reports by the Welsh Ministers
13 Annual progress reports by local authorities and Local Health Boards

*Guidance and directions in relation to the purpose of this Act*

14 Meaning of "relevant authority"
15 Power to issue statutory guidance
16 Consultation and National Assembly for Wales procedures
17 Duty to follow statutory guidance
18 Policy statements: requirements and ancillary powers
19 Directions

*Cynghorydd Cenedlaethol*

20 Cynghorydd Cenedlaethol
21 Swyddogaethau'r Cynghorydd
22 Cynllun blynyddol ac adroddiadau blynyddol
23 Cyhoeddi adroddiadau

*Cyffredinol*

24 Dehongli
25 Cychwyn
26 Enw byr

*National Adviser*

20 National Adviser
21 Functions of the Adviser
22 Annual plan and annual reports
23 Publication of reports

*General*

24 Interpretation
25 Commencement
26 Short title

# Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Deddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wella trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; i wella trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr cam-drin a thrais o'r fath; i wella'r cymorth sydd ar gael i bobl yr effeithir arnynt gan gamdriniaeth a thrais o'r fath; ac i'w gwneud yn ofynnol penodi Cynghorydd Cenedlaethol ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. [29 Ebrill 2015]

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

*Cyflwyniad*

**1 Diben y Ddeddf hon**

(1) Diben y Ddeddf hon yw gwella—

(a) trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;

(b) trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;

(c) y cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

(2) Gweler adran 24 am y diffiniadau o "trais ar sail rhywedd", "cam-drin domestig" a "trais rhywiol".

**2 Trais yn erbyn menywod a merched**

(1) Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau perthnasol roi sylw (ynghyd â phob mater perthnasol arall) i'r angen i ddileu neu leihau unrhyw ffactorau sy'n—

(a) cynyddu'r risg o drais yn erbyn menywod a merched, neu

(b) gwaethygu effaith trais o'r fath ar ddioddefwyr.

(2) Yn yr adran hon—

# Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015

An Act of the National Assembly for Wales to improve arrangements for the prevention of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence; to improve arrangements for the protection of victims of such abuse and violence; to improve support for people affected by such abuse and violence; and to require the appointment of a National Adviser on gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. [29 April 2015]

**Having been passed by the National Assembly for Wales and having received the assent of Her Majesty, it is enacted as follows:**

*Introduction*

**1 The purpose of this Act**

(1) The purpose of this Act is to improve—

(a) arrangements for the prevention of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence;

(b) arrangements for the protection of victims of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence;

(c) support for people affected by gender-based violence, domestic abuse and sexual violence.

(2) See section 24 for the definitions of "gender-based violence", "domestic abuse" and "sexual violence".

**2 Violence against women and girls**

(1) A person exercising relevant functions must have regard (along with all other relevant matters) to the need to remove or minimise any factors which—

(a) increase the risk of violence against women and girls, or

(b) exacerbate the impact of such violence on victims.

(2) In this section—

ystyr "swyddogaethau perthnasol" ("*relevant functions*") yw'r swyddogaethau o dan adrannau 3, 4, 5, 6, 7(2), 8, 10, 11, 15, 16(1), 17, 19, 20, 21, 22(1) a (4), ond nid yw'n cynnwys unrhyw swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adran 5 gan berson nad yw'n awdurdod lleol nac yn Fwrdd Iechyd Lleol;

ystyr "trais yn erbyn menywod a merched" ("*violence against women and girls*") yw trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol pan fo'r dioddefwr yn fenywaidd.

*Strategaeth genedlaethol*

**3 Dyletswydd i baratoi, cyhoeddi ac adolygu strategaeth genedlaethol**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth ("strategaeth genedlaethol") sy'n—

(a) pennu amcanion a fydd, os y'u cyflawnir, ym marn Gweinidogion Cymru, yn cyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon;

(b) pennu o fewn pa gyfnodau y bydd Gweinidogion Cymru yn disgwyl cyflawni'r amcanion a bennir;

(c) dynodi'r camau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion a bennir.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru bennu amcanion mewn perthynas â Chymru neu unrhyw ran o Gymru.

(3) Rhaid i'r strategaeth genedlaethol gyntaf gael ei chyhoeddi heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl dyddiad cynnal yr etholiad cyffredinol cyntaf ar ôl cychwyn yr adran hon.

(4) Heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl dyddiad pob etholiad cyffredinol dilynol, rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r strategaeth genedlaethol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r strategaeth genedlaethol ar unrhyw adeg arall.

(6) Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu diwygio'r strategaeth genedlaethol yn dilyn adolygiad, rhaid iddynt gyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy cyn—

(a) cyhoeddi'r strategaeth genedlaethol gyntaf o dan yr adran hon;

(b) diwygio'r strategaeth genedlaethol.

(8) Yn y rhan hon, ystyr "etholiad cyffredinol" yw—

(a) y bleidlais a gynhelir mewn etholiad cyffredinol arferol o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), neu

(b) y bleidlais a gynhelir mewn etholiad cyffredinol eithriadol o dan adran 5 o'r Ddeddf honno.

**4 Dyletswydd i weithredu'r strategaeth genedlaethol**

Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau, gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion a bennir yn y strategaeth genedlaethol ddiweddaraf a gyhoeddwyd.

"relevant functions" ("*swyddogaethau perthnasol*") means the functions under sections 3, 4, 5, 6, 7(2), 8, 10, 11, 15, 16(1), 17, 19, 20, 21, 22(1) and (4), but it does not include any functions exercisable under section 5 by a person who is neither a local authority nor a Local Health Board;

"violence against women and girls" ("*trais yn erbyn menywod a merched*") means gender-based violence, domestic abuse and sexual violence where the victim is female.

*National strategy*

**3 Duty to prepare, publish and review a national strategy**

(1) The Welsh Ministers must prepare and publish a strategy (a "national strategy") which—

(a) specifies objectives that the Welsh Ministers consider will, if achieved, contribute to the pursuit of the purpose of this Act;

(b) specifies the periods of time within which the Welsh Ministers expect to achieve the specified objectives;

(c) identifies the actions the Welsh Ministers propose to take to achieve the specified objectives.

(2) The Welsh Ministers may specify objectives relating to Wales or any part of Wales.

(3) The first national strategy must be published no later than 6 months after the date on which the first general election is held following the commencement of this section.

(4) No later than 6 months after the date of each subsequent general election, the Welsh Ministers must review the national strategy.

(5) The Welsh Ministers may review the national strategy at any other time.

(6) If the Welsh Ministers decide to revise the national strategy following a review, they must publish the revised strategy as soon as is reasonably practicable.

(7) The Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate before—

(a) publishing the first national strategy under this section;

(b) revising the national strategy.

(8) In this section, "general election" means—

(a) the poll held at an ordinary general election under section 3 of the Government of Wales Act 2006 (c.32), or

(b) the poll held at an extraordinary general election under section 5 of that Act.

**4 Duty to implement the national strategy**

The Welsh Ministers must, in exercising their functions, take all reasonable steps to achieve the objectives specified in the most recently published national strategy.

*Strategaethau lleol*

**5 Dyletswydd i baratoi strategaethau lleol**

(1) Rhaid i awdurdod lleol, a Bwrdd Iechyd Lleol y mae unrhyw ran o'i ardal o fewn ardal yr awdurdod lleol, baratoi, ar y cyd, strategaeth ("strategaeth leol") ar gyfer ardal yr awdurdod lleol.

(2) Rhaid i strategaeth leol—

(a) pennu amcanion y byddant, os cânt eu cyflawni, ym marn yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol, yn cyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon;

(b) pennu o fewn pa gyfnodau y bydd yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn bwriadu cyflawni'r amcanion a bennir;

(c) dynodi'r camau y mae'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion a bennir.

(3) Caiff awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol bennu amcanion sy'n ymwneud ag ardal gyfan yr awdurdod, neu unrhyw ran ohoni.

(4) Caiff strategaeth leol hefyd gynnwys darpariaeth yn ymwneud â chamau gweithredu penodol y bydd yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn disgwyl i'r canlynol eu cymryd mewn perthynas ag ardal yr awdurdod lleol—

(a) unrhyw awdurdod cyhoeddus sydd â swyddogaethau y mae modd iddynt gyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon, neu

(b) unrhyw gorff gwirfoddol neu berson arall y mae modd i'w weithgareddau gyfrannu at ymgyrraedd at y diben hwnnw.

(5) Ond mae'n ofynnol cael caniatâd y corff neu'r person o dan sylw cyn cynnwys mewn strategaeth leol unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â chamau gweithredu a grybwyllir yn is-adran (4).

**6 Cyhoeddi ac adolygu strategaethau lleol**

(1) Rhaid cyhoeddi strategaeth leol gyntaf awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol heb fod yn hwyrach na un flwyddyn ar ôl dyddiad cynnal yr etholiad arferol cyntaf wedi dyddiad cychwyn adran 5(1).

(2) Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn ar ôl dyddiad pob etholiad arferol dilynol, rhaid i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol adolygu eu strategaeth leol.

(3) Mewn perthynas ag awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) cânt adolygu eu strategaeth leol ar unrhyw adeg arall, a

(b) rhaid iddynt adolygu eu strategaeth leol os cânt eu cyfarwyddo yn ysgrifenedig i wneud hynny gan Weinidogion Cymru.

(4) Rhaid i gyfarwyddyd o dan is-adran (3)(b) nodi'r rhesymau dros roi'r cyfarwyddyd.

(5) Os bydd awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol yn penderfynu diwygio eu strategaeth leol ar ôl adolygiad, rhaid iddynt gyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

*Local strategies*

**5 Duty to prepare local strategies**

(1) A local authority and a Local Health Board any part of whose area lies within the area of the local authority must jointly prepare a strategy ("a local strategy") for the local authority's area.

(2) A local strategy must—

(a) specify objectives which the local authority and the Local Health Board consider will, if achieved, contribute to the pursuit of the purpose of this Act;

(b) specify the periods of time within which the local authority and the Local Health Board propose to achieve the specified objectives;

(c) identify the actions the local authority and the Local Health Board propose to take to achieve the specified objectives.

(3) A local authority and a Local Health Board may specify objectives relating to the whole of the authority's area or any part of it.

(4) A local strategy may also include provision relating to specific action which the local authority and the Local Health Board expect to be taken in relation to the local authority's area by—

(a) any public authority with functions which are capable of contributing to the pursuit of the purpose of this Act, or

(b) any voluntary organisation or other person whose activities are capable of contributing to the pursuit of that purpose.

(5) But the inclusion in a local strategy of any provision relating to action mentioned in subsection (4) requires the approval of the body or person concerned.

**6 Publication and review of local strategies**

(1) A local authority and a Local Health Board's first local strategy must be published no later than one year after the date on which the first ordinary election is held following the date on which section 5(1) is commenced.

(2) No later than one year after the date of each subsequent ordinary election, a local authority and Local Health Board must review their local strategy.

(3) A local authority and a Local Health Board—

(a) may review their local strategy at any other time, and

(b) must review their local strategy if directed to do so in writing by the Welsh Ministers.

(4) A direction under subsection (3)(b) must state the reasons for giving the direction.

(5) If a local authority and a Local Health Board decide to revise their local strategy following a review, they must publish the revised strategy as soon as is reasonably practicable.

(6) Rhaid i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol ymgynghori ag unrhyw bersonau sy’n briodol yn eu barn hwy cyn—

(a) cyhoeddi eu strategaeth leol gyntaf;

(b) diwygio eu strategaeth leol.

(7) Yn yr adran hon, ystyr “etholiad arferol” yw etholiad a gynhelir o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70) (ethol cynghorwyr i awdurdodau lleol).

**7 Materion y mae’n rhaid rhoi sylw iddynt wrth baratoi neu adolygu strategaeth leol**

(1) Wrth baratoi ac adolygu strategaeth leol, rhaid i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol roi sylw i—

(a) y strategaeth genedlaethol ddiweddaraf a gyhoeddwyd;

(b) yr asesiad diweddaraf ar gyfer ardal yr awdurdod lleol o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) (asesu anghenion am ofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol);

(c) yr asesiad strategol diweddaraf a baratowyd yn unol â rheoliadau o dan adran 6 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (p.37) sy’n ymwneud â lleihau trosedd ac anhrefn yn ardal yr awdurdod lleol;

(d) yr asesiad strategol diweddaraf a baratowyd yn unol â rheoliadau o dan yr adran honno sy’n ymwneud â mynd i’r afael â cham-drin sylweddau yn ardal yr awdurdod lleol;

(e) yr asesiad strategol diweddaraf a baratowyd yn unol â rheoliadau o dan yr adran honno sy’n ymwneud â lleihau aildroseddu yn ardal yr awdurdod lleol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â’i gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) rhoi sylw i unrhyw beth a bennir yn y rheoliadau wrth baratoi neu adolygu strategaeth leol;

(b) cynnal asesiadau pellach at ddiben y Ddeddf hon mewn perthynas ag unrhyw fater a bennir yn y rheoliadau.

(3) Mae’r pŵer i wneud rheoliadau yn is-adran (2) i gael ei arfer drwy offeryn statudol.

(4) Mae offeryn statudol sy’n cynnwys rheoliadau sydd wedi eu gwneud o dan is-adran (2) yn ddarostyngedig i’w ddirymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**8 Dyletswydd i weithredu strategaethau lleol**

(1) Rhaid i awdurdod lleol, wrth arfer ei swyddogaethau, gymryd pob cam sy’n rhesymol er mwyn cyflawni’r amcanion a bennir yn y strategaeth leol ddiweddaraf ar gyfer ei ardal a gyhoeddwyd.

(2) Rhaid i’r Bwrdd Iechyd Lleol y paratôdd yr awdurdod y strategaeth ar y cyd ag ef, wrth arfer ei swyddogaethau, gymryd pob cam sy’n rhesymol er mwyn cyflawni’r amcanion a bennir yn y strategaeth.

(6) A local authority and Local Health Board must consult such persons as they consider appropriate before—

(a) publishing their first local strategy;

(b) revising their local strategy.

(7) In this section, "ordinary election" means an election held under section 26 of the Local Government Act 1972 (c.70) (elections of councillors to local authorities).

**7 Matters to which regard must be had in preparing or reviewing a local strategy**

(1) In preparing and reviewing a local strategy, a local authority and Local Health Board must have regard to—

(a) the most recently published national strategy;

(b) the most recent assessment for the local authority's area under section 14 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4) (assessment of needs for care and support, support for carers and preventative services);

(c) the most recent strategic assessment prepared in accordance with regulations under section 6 of the Crime and Disorder Act 1998 (c.37) relating to reducing crime and disorder in the local authority area;

(d) the most recent strategic assessment prepared in accordance with regulations under that section relating to combating substance misuse in the local authority area;

(e) the most recent strategic assessment prepared in accordance with regulations under that section relating to the reduction of re-offending in the local authority area.

(2) The Welsh Ministers may by regulations make provision for and in connection with requiring—

(a) a local authority and Local Health Board to have regard to anything specified in the regulations when preparing or reviewing a local strategy;

(b) a local authority or a Local Health Board to conduct further assessments for the purpose of this Act in relation to any matter specified in the regulations.

(3) The power to make regulations in subsection (2) is to be exercised by statutory instrument.

(4) A statutory instrument containing regulations made under subsection (2) is subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales.

**8 Duty to implement local strategies**

(1) A local authority must, in exercising its functions, take all reasonable steps to achieve the objectives specified in the most recently published local strategy for its area.

(2) The Local Health Board with which the authority prepared that strategy must, in exercising its functions, take all reasonable steps to achieve the objectives specified in the strategy.

*Addysg*

**9 Gwybodaeth am ddarpariaeth addysgol i hybu diben y Ddeddf hon**

(1) Mae Deddf Addysg 1996 (p.56) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 29, ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(6A) The Welsh Ministers may, by regulations, require local authorities in Wales to publish prescribed information, at such times and in such manner as may be prescribed, for the purpose of providing information to the public about whether, and if so how, local authority education functions are being exercised to promote the purpose of the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015 (see section 1 of that Act)."

(3) Yn adran 408—

(a) yn is-adran (4)(f), hepgorer "and";

(b) yn is-adran (4)(g), ar ôl "409" mewnosoder "; and";

(c) ar ôl is-adran (4)(g), mewnosoder—

"(h) in so far as subsection (1) applies in relation to Wales, sections 403 and 404";

(d) ar ôl is-adran (8), mewnosoder—

"(8A) In exercising their functions under subsection (1), the Welsh Ministers must have regard to the desirability of information being available to parents and others about whether, and if so how, any parts of the curriculum and any educational provision at maintained schools (other than maintained nursery schools) promote the purpose of the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015 (see section 1 of that Act)."

(4) Yn adran 569(2B), ar ôl "sections" mewnosoder "29(6A),".

**10 Canllawiau i sefydliadau addysg bellach ac uwch**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i gyrff llywodraethu sefydliadau yng Nghymru o fewn y sector addysg bellach ynghylch sut y gall y cyrff gyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon.

(2) Caiff Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ("CCAUC") ddyroddi canllawiau i gyrff llywodraethu sefydliadau yng Nghymru o fewn y sector addysg uwch ynghylch sut y gall y cyrff gyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon.

(3) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru a CCAUC ddyroddi canllawiau o dan yr adran hon—

(a) a gyfeirir at sefydliad penodol,

(b) mewn cysylltiad â chyrsiau neu raglenni ymchwil (gan gynnwys cynnwys cyrsiau neu raglenni o'r fath neu'r modd y maent yn cael eu haddysgu, eu goruchwylio neu eu hasesu),

(c) mewn cysylltiad â'r meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr, neu

*Education*

**9 Information about educational provision to promote the purpose of this Act**

(1) The Education Act 1996 (c.56) is amended as follows.

(2) In section 29, after subsection (5) insert—

"(6A) The Welsh Ministers may, by regulations, require local authorities in Wales to publish prescribed information, at such times and in such manner as may be prescribed, for the purpose of providing information to the public about whether, and if so how, local authority education functions are being exercised to promote the purpose of the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015 (see section 1 of that Act)."

(3) In section 408—

(a) in subsection (4)(f), omit "and";

(b) in subsection (4)(g), after "409" insert "; and";

(c) after subsection (4)(g), insert—

"(h) in so far as subsection (1) applies in relation to Wales, sections 403 and 404";

(d) after subsection (8), insert—

"(8A) In exercising their functions under subsection (1), the Welsh Ministers must have regard to the desirability of information being available to parents and others about whether, and if so how, any parts of the curriculum and any educational provision at maintained schools (other than maintained nursery schools) promote the purpose of the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015 (see section 1 of that Act)."

(4) In section 569(2B), after "sections" insert "29(6A),".

**10 Guidance to further and higher education institutions**

(1) The Welsh Ministers may issue guidance to the governing bodies of institutions in Wales within the further education sector on how the bodies may contribute to the pursuit of the purpose of this Act.

(2) The Higher Education Funding Council for Wales ("HEFCW") may issue guidance to the governing bodies of institutions in Wales within the higher education sector on how the bodies may contribute to the pursuit of the purpose of this Act.

(3) But the Welsh Ministers and HEFCW may not issue guidance under this section—

(a) which is directed at a particular institution,

(b) in respect of courses or programmes of research (including the contents of such courses or programmes or the manner in which they are taught, supervised or assessed),

(c) in respect of the criteria for admission of students, or

(d) mewn cysylltiad â'r meini prawf ar gyfer dethol a phenodi staff academaidd.

(4) Rhaid i gorff llywodraethu y dyroddir canllawiau iddo o dan yr adran hon roi sylw iddynt.

(5) Cyn dyroddi canllawiau o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru a CCAUC ymgynghori â'r personau hynny sy'n briodol yn eu barn hwy.

(6) Rhaid i ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon gael eu cyhoeddi.

(7) At ddibenion yr adran hon, mae sefydliad—

(a) yng Nghymru os yw ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn gyfan gwbwl neu'n bennaf yng Nghymru,

(b) o fewn y sector addysg bellach os yw'n dod o fewn adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13) ("Deddf 1992"), ac

(c) o fewn y sector addysg uwch os yw'n dod o fewn adran 91(5) o Ddeddf 1992.

(8) Hyd 31 Awst 2017, mae "sefydliad o fewn y sector addysg uwch" hefyd yn cynnwys prifysgol sy'n cael ei thrin fel pe bai'n sefydliad rheoleiddiedig at ddiben y ddarpariaeth drosiannol a wneir gan Ran 2 o'r Atodlen i Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (dccc 1).

(9) Yn yr adran hon mae i "corff llywodraethu" yr ystyr a roddir i "governing body" gan adran 90 o Ddeddf 1992.

*Mesur perfformiad tuag at gyflawni diben y Ddeddf hon*

**11 Dangosyddion cenedlaethol**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y gellir eu cymhwyso at y diben o fesur cynnydd tuag at gyflawni diben y Ddeddf hon;

(b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) O ran dangosydd cenedlaethol—

(a) rhaid iddo gael ei fynegi fel gwerth y gellir ei fesur neu nodwedd y gellir ei mesur yn feintiol neu'n ansoddol yn erbyn canlyniad penodol;

(b) caiff fod yn fesuradwy dros ba gyfnod bynnag sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru;

(c) caiff fod yn fesuradwy mewn perthynas â Chymru neu unrhyw ran o Gymru.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru adolygu a diwygio'r dangosyddion perfformiad ar unrhyw adeg.

(4) Pan fydd Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion perfformiad o dan is-adran (3), rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(a) cyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd, a

(b) gosod copi ohonynt gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Cyn cyhoeddi dangosyddion cenedlaethol (gan gynnwys dangosyddion a ddiwygir o dan is-adran (3)), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn eu hystyried yn briodol.

(d) in respect of the criteria for the selection and appointment of academic staff.

(4) A governing body to which guidance is issued under this section must have regard to it.

(5) Before issuing guidance under this section the Welsh Ministers and HEFCW must consult such persons as they consider appropriate.

(6) Guidance issued under this section must be published.

(7) For the purposes of this section, an institution—

(a) is in Wales if its activities are carried on wholly or principally in Wales,

(b) is within the further education sector if it falls within section 91(3) of the Further and Higher Education Act 1992 (c.13) ("the 1992 Act"), and

(c) is within the higher education sector if it falls within section 91(5) of the 1992 Act.

(8) Until 31 August 2017, "institution within the higher education sector" also includes a university which is treated as being a regulated institution for the purpose of the transitional provision made by Part 2 of the Schedule to the Higher Education (Wales) Act 2015 (anaw 1).

(9) In this section "governing body" has the meaning given by section 90 of the 1992 Act.

*Measuring performance towards achieving the purpose of this Act*

**11 National indicators**

(1) The Welsh Ministers must—

(a) publish indicators ("national indicators") that may be applied for the purpose of measuring progress towards the achievement of the purpose of this Act;

(b) lay a copy of the national indicators before the National Assembly.

(2) A national indicator—

(a) must be expressed as a value or characteristic that can be measured quantitatively or qualitatively against a particular outcome;

(b) may be measured over such period of time as the Welsh Ministers consider appropriate;

(c) may be measurable in relation to Wales or any part of Wales.

(3) The Welsh Ministers may review and revise the national indicators at any time.

(4) Where the Welsh Ministers revise the national indicators under subsection (3), they must as soon as reasonably practicable—

(a) publish the indicators as revised, and

(b) lay a copy of them before the National Assembly.

(5) Before publishing national indicators (including indicators revised under subsection (3)), the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.

**12 Adroddiadau cynnydd blynyddol gan Weinidogion Cymru**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, gyhoeddi adroddiad ar—

(a) y cynnydd a wnaed ganddynt o ran cyflawni'r amcanion yn y strategaeth genedlaethol;

(b) y cynnydd sydd wedi ei wneud tuag at gyflawni diben y Ddeddf hon yng Nghymru gan gyfeirio at y dangosyddion cenedlaethol a gyhoeddir o dan adran 11.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi diwygio'r strategaeth genedlaethol yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef, rhaid i'r adroddiad gynnwys esboniad o'r rhesymau dros y diwygiad hwnnw.

(3) Rhaid i unrhyw adroddiad o dan yr adran hon a gyhoeddir yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau gyda dyddiad etholiad cyffredinol gynnwys rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol yn y dyfodol ac unrhyw ddata a gwybodaeth ddadansoddol arall sy'n ymwneud â diben y Ddeddf hon y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.

(4) Yn is-adran (3), mae'r cyfeiriad at ddyddiad etholiad cyffredinol yn gyfeiriad at y dyddiad y caiff etholiad cyffredinol arferol ei gynnal o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) (neu'r dyddiad y byddai'n cael ei gynnal heblaw am adran 5(5) o'r Ddeddf honno).

(5) Rhaid i adroddiad o dan yr adran hon gael ei gyhoeddi a'i osod gerbon y Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

**13 Adroddiadau cynnydd blynyddol gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol**

(1) Rhaid i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol gyhoeddi, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, adroddiad ar y cynnydd a wnaed ganddynt o ran cyflawni'r amcanion a bennir yn eu strategaeth leol.

(2) Pan fo awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol wedi diwygio eu strategaeth yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef, rhaid i'r adroddiad gynnwys esboniad o'r rhesymau dros y diwygiad.

(3) Rhaid i adroddiad o dan yr adran hon gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

*Canllawiau a chyfarwyddydau mewn perthynas â diben y Ddeddf hon*

**14 Ystyr "awdurdod perthnasol"**

Yn y Ddeddf hon, ystyr "awdurdod perthnasol" yw—

(a) awdurdod lleol;

(b) Bwrdd Iechyd Lleol;

(c) awdurdod tân ac achub yng Nghymru a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;

**12 Annual progress reports by the Welsh Ministers**

(1) The Welsh Ministers must, in respect of each financial year, publish a report—

(a) of the progress they have made towards achieving the objectives in the national strategy;

(b) of the progress made towards achieving the purpose of this Act in Wales by reference to the national indicators published under section 11.

(2) Where the Welsh Ministers have revised the national strategy during the period to which the report relates, the report must include an explanation of the reasons for the revision.

(3) Any report under this section published during the period of 12 months beginning with the date of a general election must contain predictions of likely future trends and any other analytical data and information relating to the purpose of this Act that the Welsh Ministers consider appropriate.

(4) In subsection (3), the reference to the date of a general election is to the date on which an ordinary general election is held under section 3 of the Government of Wales Act 2006 (c.32) (or would be apart from section 5(5) of that Act).

(5) A report under this section must be published and laid before the National Assembly as soon as reasonably practicable following the end of the financial year to which the report relates.

**13 Annual progress reports by local authorities and Local Health Boards**

(1) A local authority and Local Health Board must publish, in respect of each financial year, a report of the progress they have made in achieving the objectives specified in their local strategy.

(2) Where a local authority and a Local Health Board have revised their strategy during the period to which the report relates, the report must include an explanation of the reasons for the revision.

(3) A report under this section must be published as soon as reasonably practicable following the end of the financial year to which the report relates.

*Guidance and directions in relation to the purpose of this Act*

**14 Meaning of "relevant authority"**

In this Act, "relevant authority" means—

(a) a local authority;

(b) a Local Health Board;

(c) a fire and rescue authority in Wales constituted by a scheme under section 2 of the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), or a scheme to which section 4 of that Act applies;

(d) un o ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42).

**15 Pŵer i ddyroddi canllawiau statudol**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdod perthnasol ar y modd y dylai'r awdurdod arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar gyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon ("canllawiau statudol").

(2) Gallai'r canllawiau statudol, ymysg pethau eraill, ymdrin â—

(a) y camau y caiff awdurdod eu cymryd i gynyddu ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, neu newid agweddau mewn perthynas â hwy (er enghraifft, drwy ddynodi aelod o staff at y diben hwnnw neu drwy ymgymryd â rhaglen addysg gyhoeddus neu gynorthwyo â rhaglen o'r fath);

(b) comisiynu cyngor arbenigol neu gymorth arall yn ymwneud â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan awdurdodau perthnasol;

(c) yr amgylchiadau pan fo'n briodol i bersonau sy'n gweithredu ar ran awdurdod perthnasol holi person a yw'n dioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, neu mewn perygl o'u dioddef;

(d) y camau sy'n briodol pan fo gan berson sy'n gweithredu ar ran awdurdod perthnasol reswm i amau bod person yn dioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, neu mewn perygl o'u dioddef;

(e) polisïau'r gweithle i hybu lles cyflogeion awdurdodau perthnasol y gallai trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol effeithio arnynt;

(f) hyfforddiant i aelodau a staff awdurdod perthnasol;

(g) rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau perthnasol neu gan awdurdod perthnasol â pherson arall;

(h) cydweithredu rhwng awdurdodau perthnasol neu rhwng awdurdod perthnasol a phersonau eraill.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) dyroddi canllawiau statudol i awdurdodau perthnasol yn gyffredinol neu i un awdurdod penodol neu ragor;

(b) dyroddi canllawiau statudol gwahanol i wahanol awdurdodau perthnasol;

(c) diwygio neu ddirymu canllawiau statudol drwy ganllawiau pellach;

(d) dirymu canllawiau statudol drwy ddyroddi hysbysiad i'r awdurdod perthnasol y'i cyfeirir ato.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod canllawiau statudol, neu hysbysiad sy'n dirymu canllawiau o'r fath, yn datgan—

(a) y'u cyhoeddir o dan yr adran hon, a

(b) y dyddiad y bydd yn cael effaith.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru drefnu i ganllawiau statudol, neu hysbysiadau sy'n dirymu canllawiau o'r fath, gael eu cyhoeddi.

(d) a National Health Service trust established under section 18 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c.42).

**15 Power to issue statutory guidance**

(1) The Welsh Ministers may issue guidance to a relevant authority on how the authority should exercise its functions with a view to contributing to the pursuit of the purpose of this Act ("statutory guidance").

(2) The statutory guidance may, amongst other things, address—

(a) steps an authority may take to increase awareness of, or change attitudes in relation to, gender-based violence, domestic abuse and sexual violence (for example, by designating a member of staff for that purpose or undertaking or assisting with a programme of public education);

(b) the commissioning by relevant authorities of specialist advice or other assistance relating to gender-based violence, domestic abuse or sexual violence;

(c) the circumstances in which it is appropriate for persons acting on behalf of a relevant authority to ask a person if he or she is suffering or at risk of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence;

(d) the action that is appropriate where a person acting on behalf of a relevant authority has reason to suspect that a person is suffering or at risk of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence;

(e) workplace policies to promote the well-being of employees of relevant authorities who may be affected by gender-based violence, domestic abuse and sexual violence;

(f) training for the members and staff of a relevant authority;

(g) the sharing of information between relevant authorities or by a relevant authority with another person;

(h) co-operation between relevant authorities or between a relevant authority and other persons.

(3) The Welsh Ministers—

(a) may issue statutory guidance to relevant authorities generally or to one or more particular authorities;

(b) may issue different statutory guidance to different relevant authorities;

(c) may revise or revoke statutory guidance by further guidance;

(d) may revoke statutory guidance by issuing a notice to the relevant authority to which it is directed.

(4) The Welsh Ministers must ensure that statutory guidance, or a notice revoking such guidance, states—

(a) that it is issued under this section, and

(b) the date on which it is to take effect.

(5) The Welsh Ministers must arrange for statutory guidance, or a notice revoking such guidance, to be published.

**16 Ymgynghori a gweithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

(1) Cyn dyroddi neu ddiwygio canllawiau statudol, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â pha bersonau bynnag sy'n briodol yn eu barn hwy, ar ddrafft o'r canllawiau.

(2) Os bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â'r drafft (gydag addasiadau neu hebddynt) rhaid iddynt osod copi o'r drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(3) Os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cyn diwedd y cyfnod o 40 diwrnod, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o'r canllawiau, ni chaiff Gweinidogion Cymru ei ddyroddi ar ffurf y drafft hwnnw.

(4) Oni wneir penderfyniad o'r fath cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r canllawiau (neu'r canllawiau diwygiedig) ar ffurf y drafft hwnnw.

(5) O ran y cyfnod o 40 diwrnod—

(a) bydd yn dechrau ar y diwrnod y gosodir y drafft gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a

(b) ni fydd yn cynnwys unrhyw adeg y bydd y Cynulliad Cenedlaethol wedi ei ddiddymu neu wedi cymryd saib am fwy na phedwar diwrnod.

(6) Nid yw is-adran (3) yn rhwystro gosod drafft newydd o ganllawiau arfaethedig neu ganllawiau diwygiedig arfaethedig gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

**17 Dyletswydd i ddilyn canllawiau statudol**

(1) Rhaid i awdurdod perthnasol ddilyn y llwybr a nodir yn y canllawiau a ddyroddir iddo yn unol â'r Ddeddf hon wrth arfer pŵer neu ddyletswydd (gan gynnwys pŵer neu ddyletswydd sy'n dibynnu ar farn yr awdurdod o dan sylw); ond mae hyn yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a ganlyn yn yr adran hon.

(2) Nid yw awdurdod perthnasol yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan is-adran (1) i'r graddau—

(a) y bo'r awdurdod o dan sylw o'r farn bod rheswm da dros iddo beidio â dilyn y canllawiau mewn categorïau penodol o achosion, neu beidio â'u dilyn o gwbl,

(b) y bo'r awdurdod yn penderfynu ar bolisi amgen ar gyfer arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â phwnc y canllawiau, ac

(c) y bo datganiad polisi a ddyroddwyd gan yr awdurdod yn unol ag adran 18 yn cael effaith.

(3) Pan fo is-adran (2) yn gymwys yn achos awdurdod y mae'r adran hon yn gymwys iddo—

(a) rhaid i'r awdurdod ddilyn y drefn a nodir yn y datganiad polisi, a

(b) dim ond i'r graddau nad yw pwnc y canllawiau yn cael ei ddisodli gan y datganiad polisi y mae'r awdurdod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan is-adran (1).

(4) Nid yw'r dyletswyddau yn is-adrannau (1) a (3) yn gymwys i awdurdod perthnasol i'r graddau y byddai'n afresymol i'r awdurdod ddilyn y canllawiau statudol neu ddatganiad polisi mewn achos penodol neu gategori o achos.

**16 Consultation and National Assembly for Wales procedures**

(1) Before issuing or revising statutory guidance, the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate on a draft of the guidance.

(2) If the Welsh Ministers wish to proceed with the draft (with or without modifications) they must lay a copy of the draft before the National Assembly for Wales.

(3) If, before the end of the 40 day period, the National Assembly resolves not to approve the draft of the guidance, the Welsh Ministers must not issue it in the form of that draft.

(4) If no such resolution is made before the end of that period, the Welsh Ministers must issue the guidance (or revised guidance) in the form of the draft.

(5) The 40 day period—

(a) begins on the day on which the draft is laid before the National Assembly, and

(b) does not include any time during which the National Assembly is dissolved or is in recess for more than four days.

(6) Subsection (3) does not prevent a new draft of proposed guidance or proposed revised guidance from being laid before the National Assembly.

**17 Duty to follow statutory guidance**

(1) A relevant authority must follow the course set out in guidance issued to it in accordance with this Act when exercising a power or duty (including a power or duty that is contingent upon the opinion of the authority concerned); but this is subject to the following provisions of this section.

(2) A relevant authority is not subject to the duty under subsection (1) so far as—

(a) the authority concerned thinks there is good reason for it not to follow the guidance in particular categories of case or at all,

(b) it decides on an alternative policy for the exercise of its functions in respect of the subject matter of the guidance, and

(c) a policy statement issued by the authority in accordance with section 18 is in effect.

(3) Where subsection (2) applies in the case of an authority to which this section applies, the authority—

(a) must follow the course set out in the policy statement, and

(b) is subject to the duty under subsection (1) only so far as the subject matter of the guidance is not displaced by the policy statement.

(4) The duties in subsections (1) and (3) do not apply to a relevant authority so far as it would be unreasonable for the authority to follow the statutory guidance or policy statement in a particular case or category of case.

**18 Datganiadau polisi: gofynion a phwerau ategol**

(1) Rhaid i ddatganiad polisi a ddyroddir o dan adran 17(2) nodi—

(a) sut y mae'r awdurdod perthnasol yn bwriadu i swyddogaethau gael eu harfer mewn ffordd wahanol i'r llwybr a nodir yn yn canllawiau statudol, a

(b) rhesymau'r awdurdod dros fwriadu dilyn y drefn wahanol honno.

(2) Caiff awdurdod sydd wedi dyroddi datganiad polisi—

(a) dyroddi datganiad polisi diwygiedig;

(b) rhoi hysbysiad sy'n dirymu datganiad polisi.

(3) Rhaid i ddatganiad polisi (neu ddatganiad diwygiedig) ddatgan—

(a) ei fod yn cael ei ddyroddi o dan adran 17(2), a

(b) ar ba ddyddiad y bydd yn cael effaith.

(4) Rhaid i awdurdod sy'n dyroddi datganiad polisi (neu ddatganiad diwygiedig), neu'n rhoi hysbysiad o dan is-adran (2)(b)—

(a) trefnu i ddatganiad neu hysbysiad gael ei gyhoeddi;

(b) anfon copi o unrhyw ddatganiad neu hysbysiad at Weinidogion Cymru.

**19 Cyfarwyddydau**

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried, mewn perthynas â datganiad polisi a ddyroddir gan awdurdod perthnasol, nad yw polisi amgen yr awdurdod ar gyfer arfer swyddogaethau (yn llwyr neu'n rhannol) yn debygol o gyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r awdurdod perthnasol i gymryd unrhyw gamau sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru at ddiben sicrhau bod yr awdurdod yn arfer swyddogaethau yn unol â'r canllawiau statudol a ddyroddwyd i'r awdurdod yn unol â'r Ddeddf hon.

(3) Rhaid i awdurdodau perthnasol sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddyd o dan yr adran hon gydymffurfio ag ef; mae hyn yn cynnwys cyfarwyddyd i arfer pŵer neu ddyletswydd sy'n dibynnu ar farn yr awdurdod perthnasol.

(4) Mewn perthynas â chyfarwyddyd o dan yr adran hon—

(a) rhaid iddo gael ei roi ar ffurf ysgrifenedig;

(b) caniateir ei amrywio neu ei ddirymu gan gyfarwyddyd pellach;

(c) mae'n orfodadwy drwy orchymyn gorfodi ar gais Gweinidogion Cymru, neu ar eu rhan.

*Cynghorydd Cenedlaethol*

**20 Cynghorydd Cenedlaethol**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi person fel Cynghorydd Cenedlaethol.

(2) Mae'r person a benodir yn Gynghorydd Cenedlaethol yn dal ei swydd yn unol â thelerau'r penodiad.

**18 Policy statements: requirements and ancillary powers**

(1) A policy statement issued under section 17(2) must set out—

(a) how the relevant authority proposes that functions should be exercised differently from the course set out in the statutory guidance, and

(b) the authority's reasons for proposing that different course.

(2) An authority that has issued a policy statement may—

(a) issue a revised policy statement;

(b) give notice revoking a policy statement.

(3) A policy statement (or revised statement) must state—

(a) that it is issued under section 17(2), and

(b) the date on which it is to take effect.

(4) The authority that issues a policy statement (or revised statement), or gives a notice under subsection (2)(b), must—

(a) arrange for a statement or notice to be published;

(b) send a copy of any statement or notice to the Welsh Ministers.

**19 Directions**

(1) Subsection (2) applies if, in relation to a policy statement issued by a relevant authority, the Welsh Ministers consider that the authority's alternative policy for the exercise of functions (in whole or in part) is not likely to contribute to the pursuit of the purpose of this Act.

(2) The Welsh Ministers may direct the relevant authority to take any action which the Welsh Ministers consider appropriate for the purpose of securing the exercise of functions by the authority in accordance with the statutory guidance issued to the authority in accordance with this Act.

(3) A relevant authority subject to a direction under this section must comply with it; this includes a direction to exercise a power or duty that is contingent upon the opinion of the relevant authority.

(4) A direction under this section—

(a) must be given in writing;

(b) may be varied or revoked by a later direction;

(c) is enforceable by mandatory order on application by, or on behalf of, the Welsh Ministers.

*National Adviser*

**20 National Adviser**

(1) The Welsh Ministers must appoint a person as the National Adviser.

(2) The person appointed as National Adviser holds office in accordance with the terms of the appointment.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru dalu treuliau, tâl cydnabyddiaeth a lwfansau mewn cysylltiad â'r Cynghorydd Gweinidogol.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru dalu—

(a) pensiynau mewn cysylltiad â phersonau a fu'n Gynghorydd Gweinidogol, a

(b) symiau ar gyfer darparu pensiynau neu tuag at ddarparu pensiynau mewn cysylltiad â phersonau a fu'n Gynghorydd Gweinidogol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu i'r Cynghorydd Gweinidogol—

(a) y cyfryw staff, a

(b) y cyfryw adeiladau, cyfarpar a chyfleusterau eraill,

ag y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer arfer swyddogaethau'r Cynghorydd Cenedlaethol.

**21 Swyddogaethau'r Cynghorydd**

(1) Mae'r Cynghorydd Cenedlaethol i arfer y swyddogaethau canlynol, yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru—

(a) cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig (gweler is-adran (2));

(b) darparu cynhorthwy arall i Weinidogion Cymru wrth iddynt ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig;

(c) gwneud gwaith ymchwil mewn perthynas ag ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon, mynd i'r afael â materion cysylltiedig neu ymchwilio i weld a yw cam-drin o unrhyw fath yn gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag anghydraddoldeb o unrhyw fath rhwng pobl o wahanol ryw, hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;

(d) darparu cyngor a chynhorthwy arall, gyda cydsyniad Gweinidogion Cymru, i unrhyw berson ar faterion sy'n ymwneud ag ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon neu fynd i'r afael â materion perthnasol;

(e) cynhyrchu adroddiadau ar unrhyw fater sy'n berthnasol i ddiben y Ddeddf hon neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig.

(2) Ystyr "mater cysylltiedig" at ddiben is-adran (1) yw camdriniaeth sydd, ym marn y Cynghorydd Cenedlaethol, yn gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag anghydraddoldeb o unrhyw fath rhwng pobl o wahanol ryw, hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol.

(3) Os bydd y Cynghorydd Cenedlaethol yn gofyn i awdurdod perthnasol ddarparu gwybodaeth at ddiben arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Cynghorydd, rhaid i'r awdurdod gydymffurfio â'r cais oni fo'r awdurdod yn ystyried y byddai gwneud hynny—

(a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r awdurdod ei hun, neu

(b) yn cael effaith andwyol fel arall ar arfer swyddogaethau'r awdurdod.

(4) Rhaid i awdurdod perthnasol sy'n penderfynu peidio â chydymffurfio â chais o dan is-adran (3) hysbysu'r Cynghorydd Cenedlaethol yn ysgrifenedig am y rhesymau dros y penderfyniad.

(3) The Welsh Ministers may pay expenses, remuneration and allowances in respect of the Ministerial Adviser.

(4) The Welsh Ministers may pay—

(a) pensions in respect of persons who have been the Ministerial Adviser, and

(b) amounts for or towards provision of pensions in respect of persons who have been the Ministerial Adviser.

(5) The Welsh Ministers may provide the Ministerial Adviser with—

(a) such staff, and

(b) such accommodation, equipment and other facilities,

as the Welsh Ministers consider necessary for the exercise of the National Adviser's functions.

**21 Functions of the Adviser**

(1) The National Adviser is to exercise the following functions, subject to the direction of the Welsh Ministers—

(a) to advise the Welsh Ministers about pursuing the purpose of this Act or tackling related matters (see subsection (2));

(b) to give other assistance to the Welsh Ministers in their pursuit of the purpose of this Act or tackling related matters;

(c) to undertake research relating to pursuing the purpose of this Act, tackling related matters or examining whether abuse of any kind is related directly or indirectly to inequality of any kind between people of a different gender, gender identity or sexual orientation;

(d) to advise and give other assistance, with the agreement of the Welsh Ministers, to any person on matters relating to pursuing the purpose of this Act or tackling related matters;

(e) produce reports on any matter relating to the purpose of this Act or tackling related matters.

(2) A "related matter" for the purpose of subsection (1) is abuse which the National Adviser considers to be related directly or indirectly to inequality of any kind between people of a different gender, gender identity or sexual orientation.

(3) If the National Adviser requests that a relevant authority provides information for the purpose of the exercise of any of the Adviser's functions, the authority must comply with the request unless the authority considers that doing so would—

(a) be incompatible with the authority's own duties, or

(b) otherwise have an adverse effect on the exercise of the authority's functions.

(4) A relevant authority which decides not to comply with a request under subsection (3) must notify the National Adviser in writing of the reasons for the decision.

**22 Cynllun blynyddol ac adroddiadau blynyddol**

(1) Cyn 30 Tachwedd ym mhob blwyddyn ariannol rhaid i'r Cynghorydd Gweinidogol—

(a) paratoi cynllun blynyddol yn nodi sut y mae'r Cynghorydd Gweinidogol yn bwriadu arfer swyddogaethau'r Cynghorydd Gweinidogol yn ystod y flwyddyn ariannol ddilynol, a

(b) cyflwyno'r cynllun blynyddol i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

(2) Rhaid i gynllun blynyddol—

(a) datgan amcanion a blaenoriaethau'r Cynghorydd Gweinidogol ar gyfer y flwyddyn ariannol mae'r adroddiad yn ymwneud â hi;

(b) datgan unrhyw faterion y mae'r Cynghorydd Gweinidogol yn bwriadu adrodd arnynt o dan adran 21(1)(e) yn ystod y flwyddyn honno;

(c) datgan unrhyw weithgareddau eraill mae'r Cynghorydd Cenedlaethol yn bwriadu ymgymryd â hwy wrth arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn honno.

(3) Caiff y Cynghorydd Cenedlaethol ymgynghori ag unrhyw berson wrth baratoi cynllun blynyddol.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo cynllun blynyddol heb addasiadau neu gydag addasiadau y cytunir arnynt gyda'r Cynghorydd Cenedlaethol.

(5) Cyn 30 Medi ym mhob blwyddyn ariannol rhaid i'r Cynghorydd Cenedlaethol yrru adroddiad at Weinidogion Cymru ynghylch y modd yr arferwyd ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

(6) Rhaid i adroddiad blynyddol gynnwys y canlynol—

(a) asesiad o'r graddau y cyflawnwyd amcanion a blaenoriaethau'r Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi;

(b) datganiad o'r materion y mae'r Cynghorydd Cenedlaethol wedi adrodd arnynt o dan adran 21(1)(e) yn ystod y flwyddyn honno;

(c) datganiad o'r gweithgareddau eraill yr ymgymerodd y Cynghorydd Cenedlaethol â hwy wrth arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn honno.

**23 Cyhoeddi adroddiadau**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi—

(a) pob cynllun blynyddol a phob adroddiad blynyddol a anfonir atynt gan y Cynghorydd Cenedlaethol, a

(b) pob adroddiad a anfonir atynt gan y Cynghorydd Cenedlaethol, os yw'r adroddiad yn cael ei grybwyll mewn cynllun blynyddol a gymeradwywyd.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad a anfonir atynt gan y Cynghorydd Cenedlaethol nas crybwyllir mewn cynllun blynyddol sydd wedi ei gymeradwyo.

(3) Cyn cyhoeddi unrhyw gynllun neu adroddiad, caiff Gweinidogion Cymru hepgor unrhyw ddeunydd ohono y byddai ei gyhoeddi, ym marn Gweinidogion Cymru—

(a) yn annymunol am resymau sy'n ymwneud â diogelwch gwladol,

(b) yn gallu peryglu diogelwch unigolyn, neu

**22 Annual plan and annual reports**

(1) Before 30 November in each financial year the Ministerial Adviser must—

(a) prepare an annual plan setting out how the Ministerial Adviser proposes to exercise the Ministerial Adviser's functions during the following financial year, and

(b) submit the annual plan to the Welsh Ministers for approval.

(2) An annual plan must—

(a) state the Ministerial Adviser's objectives and priorities for the financial year covered by the report;

(b) state any matters on which the Ministerial Adviser proposes to report under section 21(1)(e) during that year;

(c) state any other activities the National Adviser proposes to undertake during that year in the exercise of the National Adviser's functions.

(3) The National Adviser may consult any person in preparing an annual plan.

(4) The Welsh Ministers may approve an annual plan without modifications or with modifications agreed with the National Adviser.

(5) Before 30 September in each financial year the National Adviser must send a report to the Welsh Ministers about the exercise of his or her functions during the previous financial year.

(6) An annual report must include—

(a) an assessment of the extent to which the National Adviser's objectives and priorities for the financial year covered by the report have been met;

(b) a statement of the matters on which the National Adviser has reported under section 21(1)(e) during that year;

(c) a statement of the other activities the National Adviser has undertaken during that year in the exercise of the National Adviser's functions.

**23 Publication of reports**

(1) The Welsh Ministers must publish—

(a) each annual plan and each annual report sent to them by the National Adviser, and

(b) each report sent to them by the National Adviser, if the report is mentioned in an approved annual plan.

(2) The Welsh Ministers may publish a report sent to them by the National Adviser that is not mentioned in an approved annual plan.

(3) Before publication of a plan or report, the Welsh Ministers may remove from it any material whose publication the Welsh Ministers think—

(a) is undesirable for reasons of national security,

(b) might jeopardise an individual's safety, or

(c) yn gallu niweidio ymchwiliad i drosedd neu erlyniad trosedd.

*Cyffredinol*

**24 Dehongli**

(1) Yn y Ddeddf hon—

ystyr "awdurdod lleol" (*"local authority"*) yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru;

mae i "awdurdod perthnasol" (*"relevant authority"*) yr ystyr a roddir gan adran 14;

ystyr "blwyddyn ariannol" (*"financial year"*) yw cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" (*"Local Health Board"*) yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42);

ystyr "cam-drin" (*"abuse"*) yw cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol;

ystyr "cam-drin domestig" (*"domestic abuse")* yw cam-drin a ddaw o du person sy'n gysylltiedig neu wedi bod yn gysylltiedig â'r dioddefwr;

ystyr "canllawiau statudol" (*"statutory guidance"*) yw canllawiau o dan adran 15;

ystyr "diben y Ddeddf hon" *("purpose of this Act")* yw'r diben a nodir yn adran 1;

ystyr "trais ar sail rhywedd" (*"gender based violence"*) yw—

(a) trais, bygythiadau o drais neu aflonyddu sy'n codi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;

(b) anffurfio organau cenhedlu benywod;

(c) gorfodi person (pa un ai drwy rym corfforol neu orfodi drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol eraill) i ymrwymo i seremoni briodas grefyddol neu sifil (pa un a yw'n rhwymo mewn cyfraith ai peidio);

ystyr "trais rhywiol"(*"sexual violence"*) yw camfanteisio rhywiol, aflonyddu rhywiol neu fygythiadau o drais o natur rywiol.

(2) Mae person yn gysylltiedig â pherson arall at ddibenion y diffiniad o "cam-drin domestig" yn is-adran (1) os ydynt—

(a) yn briod â'i gilydd neu wedi bod yn briod â'i gilydd;

(b) yn bartneriaid sifil i'w gilydd neu wedi bod yn bartneriaid sifil i'w gilydd;

(c) yn byw gyda'i gilydd neu wedi bod yn byw gyda'i gilydd mewn perthynas deuluol barhaus (pa un a ydynt o rywiau gwahanol neu o'r un rhyw);

(d) yn byw neu wedi byw ar yr un aelwyd; ac at y diben hwn mae person yn aelod o aelwyd person arall—

(i) os yw'r person fel arfer yn byw gyda'r person arall fel aelod o'i deulu, neu

(ii) os y gellid disgwyl yn rhesymol i'r person fyw gyda'r person arall hwnnw;

(e) yn berthnasau i'w gilydd;

(c) might prejudice the investigation or prosecution of an offence.

*General*

**24 Interpretation**

(1) In this Act—

"abuse" ("*cam-drin*") means physical, sexual, psychological, emotional or financial abuse;

"domestic abuse" ("*cam-drin domestig*") means abuse where the victim of it is or has been associated with the abuser;

"financial year" ("*blwyddyn ariannol*") means a period of 12 months ending on 31 March;

"gender-based violence" ("*trais ar sail rhywedd*") means—

(a) violence, threats of violence or harassment arising directly or indirectly from values, beliefs or customs relating to gender or sexual orientation;

(b) female genital mutilation;

(c) forcing a person (whether by physical force or coercion by threats or other psychological means) to enter into a religious or civil ceremony of marriage (whether or not legally binding);

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means the council of a county or county borough in Wales;

"Local Health Board" ("*Bwrdd Iechyd Lleol*") means a Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c.42);

"purpose of this Act" *("diben y Ddeddf hon")* means the purpose in section 1;

"relevant authority" ("*awdurdod perthnasol*") has the meaning given by section 14;

"sexual violence" ("*trais rhywiol*") means sexual exploitation, sexual harassment, or threats of violence of a sexual nature;

"statutory guidance" ("*canllawiau statudol*") means guidance under section 15.

(2) A person is associated with another person for the purpose of the definition of "domestic abuse" in subsection (1) if—

(a) they are or have been married to each other;

(b) they are or have been civil partners of each other;

(c) they live or have lived together in an enduring family relationship (whether they are of different sexes or the same sex);

(d) they live or have lived in the same household; and for this purpose a person is a member of another person's household if—

(i) the person normally lives with the other person as a member of his or her family, or

(ii) the person might reasonably be expected to live with that other person;

(e) they are relatives;

(f) wedi cytuno i briodi ei gilydd (pa un a yw'r cytundeb hwnnw wedi ei derfynu ai peidio);

(g) wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil rhyngddynt (pa un a yw'r cytundeb hwnnw wedi ei derfynu ai peidio);

(h) mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd, neu wedi bod mewn perthynas o'r fath;

(i) mewn perthynas â phlentyn, y naill a'r llall yn rhiant i'r plentyn neu â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, neu wedi bod â chyfrifoldeb o'r fath.

(3) Os yw plentyn wedi ei fabwysiadu neu'n dod o fewn is-adran (4), mae dau berson hefyd yn gysylltiedig â'i gilydd at ddibenion y diffiniad o "cam-drin domestig" yn is-adran (1)—

(a) os yw un yn rhiant naturiol i'r plentyn neu'n rhiant i riant naturiol o'r fath, a

(b) y person arall yw—

(i) y plentyn, neu

(ii) person sydd wedi dod yn rhiant i'r plentyn yn rhinwedd gorchymyn mabwysiadu, sydd wedi gwneud cais am orchymyn mabwysiadu, neu y mae'r plentyn wedi ei leoli gydag ef ar gyfer ei fabwysiadu ar unrhyw adeg.

(4) Mae plentyn yn dod o fewn yr is-adran hon—

(a) os yw asiantaeth fabwysiadu, o fewn ystyr adran 2 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p.38), wedi ei hawdurdodi i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu o dan adran 19 o'r Ddeddf honno (gosod plentyn â chydsyniad rhiant) neu'r plentyn wedi dod yn destun gorchymyn o dan adran 21 o'r Ddeddf honno (gorchmynion lleoli), neu

(b) os yw'r plentyn yn cael ei ryddhau ar gyfer ei fabwysiadu yn rhinwedd gorchymyn a wneir—

(i) yng Nghymru a Lloegr, o dan adran 18 o Ddeddf Mabwysiadu 1976 (p.36), neu

(ii) yng Ngogledd Iwerddon, o dan Erthygl 17(1) neu 18(1) o Orchymyn Mabwysiadu (Gogledd Iwerddon) 1987 (O.S. 1987/2203), neu

(c) os yw'r plentyn yn destun gorchymyn parhauster yn yr Alban sy'n cynnwys rhoi'r awdurdod i fabwysiadu.

(5) Yn yr adran hon—

ystyr "aflonyddu" (*"harassment"*) yw llwybr ymddygiad gan berson y mae'n gwybod, neu y dylai wybod, ei fod yn gyfystyr ag aflonyddu ar y llall; ac at ddiben y diffiniad hwn—

(a) dylai person wybod bod ei ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu, neu'n cynnwys aflonyddu, pe bai person rhesymol sy'n meddu ar yr un wybodaeth o'r farn bod y llwybr ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu ar berson arall, neu'n cynnwys aflonyddu ar berson arall, a

(b) mae "ymddygiad" yn cynnwys siarad;

(f) they have agreed to marry one another (whether or not that agreement has been terminated);

(g) they have entered into a civil partnership agreement between them (whether or not that agreement has been terminated);

(h) they have or have had an intimate personal relationship with each other;

(i) in relation to a child, each of them is a parent of the child or has, or has had, parental responsibility for the child.

(3) If a child has been adopted or falls within subsection (4), two persons are also associated with each other for the purposes of the definition of "domestic abuse" in subsection (1) if—

(a) one is a natural parent of the child or a parent of such a natural parent, and

(b) the other is—

(i) the child, or

(ii) a person who has become a parent of the child by virtue of an adoption order, who has applied for an adoption order or with whom the child has at any time been placed for adoption.

(4) A child falls within this subsection if—

(a) an adoption agency, within the meaning of section 2 of the Adoption and Children Act 2002 (c.38), is authorised to place the child for adoption under section 19 of that Act (placing children with parental consent) or the child has become the subject of an order under section 21 of that Act (placement orders), or

(b) the child is freed for adoption by virtue of an order made—

(i) in England and Wales, under section 18 of the Adoption Act 1976 (c.36), or

(ii) in Northern Ireland, under Article 17(1) or 18(1) of the Adoption (Northern Ireland) Order 1987 (S.I. 1987/2203), or

(c) the child is the subject of a Scottish permanence order which includes granting authority to adopt.

(5) In this section—

"adoption order" *("gorchymyn mabwysiadu")* means an adoption order within the meaning of section 72(1) of the Adoption Act 1976 or section 46(1) of the Adoption and Children Act 2002;

ystyr "anffurfio organau cenhedlu benywod" (*"female genital mutilation"*) yw gweithred sy'n drosedd o dan adrannau 1, 2 neu 3 o Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 (p.31);

ystyr "cam-drin ariannol" (*"financial abuse"*) yw—

(a) bod arian neu eiddo arall yn cael ei ddwyn,

(b) bod person yn cael ei dwyllo,

(c) bod person yn cael ei roi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall, a

(d) bod arian neu eiddo arall person yn cael ei gamddefnyddio;

ystyr "camfanteisio rhywiol" (*"sexual exploitation"*) yw rhywbeth a wneir i berson neu mewn perthynas â pherson—

(a) sy'n cynnwys cyflawni trosedd o dan Ran 1 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (p.42), fel y mae'n cael effaith yng Nghymru a Lloegr, neu

(b) a fyddai'n cynnwys cyflawni trosedd o'r fath pe bai'n cael ei wneud yng Nghymru a Lloegr;

mae i "cyfrifoldeb rhiant" (*"parental responsibility"*) yr ystyr a roddir i "parental responsibility" gan adran 3 o Ddeddf Plant 1989 (p.41);

mae i "cytundeb partneriaeth sifil" (*"civil partnership agreement"*) yr ystyr a roddir i "civil partnership agreement" gan adran 73 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (p.33);

ystyr "gorchymyn mabwysiadu" (*"adoption order"*) yw gorchymyn mabwysiadu o fewn yr ystyr a roddir i "adoption order" gan adran 72(1) o Ddeddf Mabwysiadu 1976 neu adran 46(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

ystyr "perthynas" (*"relative"*), mewn perthynas â pherson, yw rhiant, tad-cu/taid, mam-gu/nain, plentyn, ŵyr, wyres, brawd, hanner brawd, chwaer, hanner chwaer, ewythr, modryb, nai neu nith y person (gan gynnwys unrhyw berson sydd neu sydd wedi bod yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus);

ystyr "plentyn" (*"child"*) yw person o dan 18 mlwydd oed.

**25 Cychwyn**

(1) Daw'r darpariaethau canlynol i rym ar y diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn derbyn y Cydsyniad Brenhinol—

adran 1;

adran 24;

yr adran hon;

adran 26.

(2) Daw adran 10 ac adrannau 14 i 21 i rym ddau fis ar ôl y diwrnod y bydd y Ddeddf hon yn derbyn y Cydsyniad Brenhinol.

"child" ("*plentyn*") means a person under the age of 18 years;

"civil partnership agreement" *("cytundeb partneriaeth sifil")* has the meaning given by section 73 of the Civil Partnership Act 2004 (c.33);

"female genital mutilation" ("*anffurfio organau cenhedlu benywod*") means an act that is an offence under sections 1, 2 or 3 of the Female Genital Mutilation Act 2003 (c.31);

"financial abuse" *("cam-drin ariannol")* means—

(a) having money or other property stolen,

(b) being defrauded,

(c) being put under pressure in relation to money or other property, and

(d) having money or other property misused;

"harassment" *("aflonyddu")* means a course of conduct by a person which he or she knows or ought to know amounts to harassment of the other; and for the purpose of this definition—

(a) a person ought to know that his or her conduct amounts to or involves harassment if a reasonable person in possession of the same information would think the course of conduct amounted to or involved harassment of another person, and

(b) "conduct" includes speech;

"sexual exploitation" ("*camfanteisio rhywiol*") means something that is done to or in respect of a person which—

(a) involves the commission of an offence under Part 1 of the Sexual Offences Act 2003 (c.42), as it has an effect in England and Wales, or

(b) would involve the commission of such an offence if it were done in England and Wales;

"parental responsibility" *("cyfrifoldeb rhiant")* has the meaning given by section 3 of the Children Act 1989 (c.41);

"relative" *("perthynas"),* in relation to a person, means that person's parent, grandparent, child, grandchild, brother, half-brother, sister, half-sister, uncle, aunt, nephew, niece (including any person who is or has been in that relationship by virtue of a marriage or civil partnership or an enduring family relationship).

**25 Commencement**

(1) The following provisions come into force on the day this Act receives Royal Assent—

section 1;

section 24;

this section;

section 26.

(2) Section 10 and sections 14 to 21 come into force two months after the day on which this Act receives Royal Assent.

(3) Daw gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (3)—

(a) pennu gwahanol ddyddiau at wahanol ddibenion;

(b) cynnwys unrhyw ddarpariaeth ddarfodol neu drosiannol y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.

**26 Enw byr**

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

(3) The remaining provisions of this Act come into force on a day appointed by the Welsh Ministers in an order made by statutory instrument.

(4) An order under subsection (3) may—

(a) appoint different days for different purposes;

(b) include such transitory or transitional provision as the Welsh Ministers consider appropriate.

**26 Short title**

The short title of this Act is the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015.

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael o:**

**Ar-lein**
**www.tsoshop.co.uk**

**Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost**
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebu trwy Linell Seneddol ar Lo-Call 0845 7 023474
Archebion ffacs:0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0870 240 3701

Y Llyfrfa
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO@Blackwell ac Asiantau Achredедig eraill**

**Published by TSO (The Stationery Office) and available from:**

**Online**
**www.tsoshop.co.uk**

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
General enquiries: 0870 600 5522
Order through the Parliamentary Hotline Lo-call 0845 7 023474
Fax orders: 0870 600 5533
Email: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0870 240 3701

The Houses of Parliament Shop
12 Bridge Street, Parliament Square
London SW1A 2JX
Telephone orders: 020 7219 3890
General enquiries: 020 7219 3890
Fax orders: 020 7219 3866
Email: bookshop@parliament.uk
Internet: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO@Blackwell and other Accredited Agents**

ISBN 978-0-348-11082-1

9 780348 110821